*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 16 Rhagfyr 2024** am **09.30 o'r gloch**
yn rhithwir **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datganiadau o Fuddiannau**

**3. Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Medi 2024**

**5. Materion yn Codi**

**6. Adroddiad Cynnydd gan Archwilio Mewnol**

**7. Diweddariad Rheoli'r Trysorlys 2024-25**

**8. Pennu Cyllideb 2025-26**

**9. Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009**
- **9i. Asesiad o Berfformiad 2022-23**
- **9ii. Asesiad o Berfformiad 2023-24**
- **9iii. Cynllun Gweithredu 2024-25**

**10. Cymeradwyo Mandad Banc**

**11. Cynnig Caffael Ymgynghoriaeth ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi**

**12. Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

**RHAN II**
Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**13. Dim**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 16 Medi yn rhithiol dros Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Gareth Owens | Swyddog Monitro |
| Anne-Marie Harrop | Mersey Internal Audit Agency |
| Angharad Ellis | Mersey Internal Audit Agency |
| George Jones | Cyfieithydd |
| Ffion Evans | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |
| Ellie Williams | Cynorthwyydd Gweithredol – Cofnodydd |

## 1.0 YMDDIHEURIADAU

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd datganiadau o fuddiant i'w cofnodi. Holodd Aelod a fyddai trafodaeth ar eitem 6 yn cael ei chaniatáu yn ystod y cyfnod cyn yr etholiad a chadarnhaodd y Swyddog Monitro y byddai, cyn belled nad oedd datganiadau gwleidyddol yn cael eu gwneud.

## 3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

## 4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MAWRTH 2024

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mawrth 2024 i'w cymeradwyo.

## 4.2 PENDERFYNWYD:

**i) cymeradwyo bod y cofnodion yn gofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

## 5.0 MATERION YN CODI

5.1 Ymddiheurodd y PSTC MacArthur am y diffyg cynnydd mewn perthynas â pharagraff 15.1 a rhoddodd sicrwydd y byddai'n cael ei ddatrys ar gyfer cyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

5.2 O ran eitem 5.1, cadarnhaodd y Trysorydd ei fod wedi siarad â Gweision Sifil yn Llywodraeth Cymru a'i fod yn disgwyl gwybodaeth am y Grant Pensiynau. Gan fod cyfnod yr etholiad yn dal i fynd rhagddo, roedd yn annhebygol y byddai ymateb yn dod i law yn awr nes bod Llywodraeth newydd y DU wedi'i ffurfio a'r ffigwr terfynol wedi'i gytuno. Disgwylid y byddai grant ond nid yw'r swm yn hysbys eto. Mae risg ariannol weddilliol yn parhau ond mae'r dull a ddefnyddiwyd yn ystod y broses o bennu'r gyllideb wedi lleihau'r risg hon gymaint â phosibl.

## 6.0 TREFNIADAU LLYWODRAETHU AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU

6.1 Cyflwynodd y Prif Swyddog Tân Docx y papur ar y Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru gan dynnu sylw at y neges ddiweddar i arweinwyr cynghorau gan Ysgrifennydd Cabinet Llywodraeth Cymru sydd â chyfrifoldeb am dân. Cadarnhaodd y papur hefyd gyhoeddiad diweddar Pwyllgor Craffu Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd, "Seinio'r Larwm: Llywodraethiant Gwasanaethau Tân ac Achub", a oedd yn ystyried trefniadau llywodraethu'r sector.

6.2 Mae'r dogfennau yn amlygu i'r Aelodau y gwaith sy'n cael ei wneud i ystyried materion sy'n berthnasol i'r trefniadau llywodraethu ynghylch y sector tân yng Nghymru.

6.3 Holwyd a fyddai'r Pwyllgor Archwilio yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau yn y dyfodol ar y newidiadau i drefniadau llywodraethu. Cadarnhaodd y PST fod Ysgrifennydd y Cabinet yn bwriadu dod i gyfarfod yr Awdurdod Tân Llawn ym mis Gorffennaf i roi cyfle i'r Aelodau ofyn unrhyw gwestiynau ynghylch eu rhan yn y broses.

6.4 Nododd Aelod y canlyniad tebygol pe byddai Llywodraeth Cymru yn cyflwyno bwrdd yn seiliedig ar sgiliau, a bwrdd llai o ran nifer, gan dynnu sylw at fantais hyn.

6.5 Mynegwyd pryderon ynghylch symud i ffwrdd o fodel democrataidd o Lywodraethu gan y gallai fod llai o atebolrwydd ar lefel leol gyda'r model presennol yn gosod dyletswydd ar Arweinwyr Cynghorau i ddewis y bobl iawn i fod yn rhan o'r Awdurdod.

6.6 Dywedwyd hefyd na fyddai gostyngiad yn nifer yr Aelodau, o reidrwydd, yn datrys y materion â'r gred nad yw'r problemau yn Ne Cymru yn adlewyrchu holl Wasanaethau Tân Cymru.

6.7 Cadarnhaodd y Prif Swyddog Tân fod angen trafod gydag Arweinwyr yng Ngogledd Cymru ac y byddai'r PST a'r Cadeirydd yn gweithio drwy'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod yn gallu cyflwyno ei safbwyntiau ar Lywodraethu i Ysgrifennydd y Cabinet.

6.5 Nododd y Trysorydd, ar sail ei brofiad o eistedd ar Gabinetau Cynghorau ac yng nghyfarfodydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â bod yn rhan o'r Awdurdod Tân, ei fod yn pryderu am rai awgrymiadau yn y papurau cenedlaethol ar Lywodraethu. Gallai'r syniad y gallai Prif Swyddogion Tân fod yn gyffredinolwyr heb brofiad o Wasanaeth Tân ac Achub leihau cost-effeithiolrwydd, gydag aelodau Cabinet Cynghorau yn brysur gyda phortffolio a ddim yn gallu blaenoriaethu dyletswyddau Awdurdod Tân ac Achub.

6.9 Rhoddodd y Swyddog Monitro ychydig o gefndir ynghylch sut yr oedd y Cabinet yn cael ei ffurfio ar lefel leol a theimlai na fyddai llawer o amser i aelod Cabinet fod yn aelod o'r Awdurdod.

**6.10 PENDERFYNWYD:**

- **i) nodi'r gwaith a gychwynnwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio gydag Awdurdodau Lleol De Cymru; a**
- **ii) nodi ail ran yr adroddiad a gyhoeddwyd gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol sy'n egluro eu safbwyntiau am newid y trefniadau llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru.**

## 7.0 CYNLLUN ARCHWILIO 2024 GAN ARCHWILIO CYMRU

7.1 Diben yr adroddiad hwn oedd cadarnhau Cynllun Archwilio 2024 a oedd yn manylu ar y dull archwilio a'r gwaith i'w wneud gan Archwilio Cymru fel archwilwyr statudol yr Awdurdod.

7.2 Tynnodd y PSTC MacArthur sylw at yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer cynhyrchu ac archwilio'r cyfrifon, a dywedodd fod yr Adran Gyllid wedi gallu llunio'r cyfrifon drafft ar gyfer 2023/24 erbyn diwedd mis Mai. Cadarnhaodd Kate Harvard, er mai'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer yr archwiliad o'r cyfrifon terfynol oedd 30 Tachwedd, y byddai pob ymdrech yn cael ei gwneud i gwblhau'r gwaith mewn pryd ar gyfer y Pwyllgor Archwilio ym mis Medi 2024.

7.3 Cadarnhawyd bod y Cynllun Corfforaethol presennol wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2024; fodd bynnag, roedd y cynllun Rheoli Risg Cymunedol, a oedd eisoes wedi'i gymeradwyo ar ffurf ddrafft, bellach allan ar gyfer ymgynghoriad a byddai'n cael ei ddwyn gerbron yr Awdurdod i'w gadarnhau yng nghyfarfod mis Gorffennaf.

7.4 Cadarnhaodd Kate Harvard y byddai eglurhad ar ba waith archwilio fyddai'n cael ei wneud mewn perthynas â'r Mesur Llywodraeth Leol (2009) yn cael ei ddarparu yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

7.5 Nododd y Trysorydd fod cau'r cyfrifon ar amser wedi bod yn ymdrech arwrol, a diolchodd i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled. Cydnabu Archwilio Cymru bryderon ynghylch gwahaniaethau o ran safonau archwilio rhwng y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac fe wnaethant gadarnhau bod pob ymdrech wedi'i gwneud i sicrhau bod y dull yn berthnasol wrth gynnal cydymffurfiaeth â'r safonau perthnasol.

**7.6 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cwmpas y gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru.**
**ii) Eglurhad ar y gwaith sydd i'w wneud mewn perthynas â'r Mesur Gwella (2009) i'w ddarparu i gyfarfod yn y dyfodol.**

## 8.0 ADRODDIAD BLYNYDDOL ARCHWILIO MEWNOL 2023/24

8.1 Cyflwynodd Angharad Ellis o MIAA bapur Adroddiad Blynyddol Archwilio Mewnol 2023/24 a oedd yn nodi, o dan delerau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 Rhan 3 5. (2), ei bod yn ofynnol i'r Awdurdod gynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd ei system o Reolaeth Fewnol.

8.2 Nododd PSTC MacArthur mai hon oedd blwyddyn gyntaf gwaith yr Awdurdod gyda MIAA ac roedd yn teimlo bod y canfyddiadau'n gymesur ac yn briodol. Diolchwyd i dîm Archwilio MIAA am eu hymdrechion.

8.3 Nododd Aelod mai'r unig ardal risg uchel oedd seiberddiogelwch a chadarnhaodd MIAA nad oedd hyn yn benodol i Ogledd Cymru. Nododd PSTC MacArthur fod hon yn risg gyffredin ar draws y sector cyhoeddus, ei bod yn cael ei monitro'n agos o fewn y Gwasanaeth, a bod cynllun gweithredu ar waith er mwyn mynd i'r afael â'r argymhelliad yn y maes hwn.

**8.4 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio a Chaffael a'r 'farn' gyffredinol ynghylch pa mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith yr Awdurdod ar gyfer llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth.**

**9.0 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

9.1 Cyflwynodd Angharad Ellis y papur Diweddariad Archwilio Mewnol, a'i ddiben oedd rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 ac am y cyfnod hyd at 31 Mai 2024.

**9.2 PENDERFYNWYD:**

**i) nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; a**
**ii) nodi'r cynnydd a wnaed wrth weithredu'r 21 argymhelliad y cytunwyd arnynt.**

**10.0 ADRODDIAD ALLDRO RHEOLI'R TRYSORLYS 2023/24**

10.1 Cyflwynodd Dafydd Edwards, Trysorydd yr Awdurdod, Adroddiad Alldro Rheoli'r Trysorlys 2023-24 i'r Aelodau, gan roi'r wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 31 Mawrth 2024.

10.2 O ran y cyd-destun economaidd, rhagfynegodd y Trysorydd y byddai ffigurau CPI y DU a fydd yn cael eu cyhoeddi ar 17 Mehefin yn cyrraedd y targed o 2%, ac er bod Banc Lloegr yn annhebygol o ostwng cyfraddau llog ar 18 Mehefin, disgwylir toriad mewn cyfraddau llog.

10.3 Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau y byddai Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael, yn gadael y Gwasanaeth ddiwedd Mehefin 2024 a diolchwyd iddi am ei holl gymorth, cefnogaeth a gwaith caled dros y blynyddoedd. Dymunodd yr Aelodau a'r swyddogion bob llwyddiant iddi ar gyfer y dyfodol.

10.4 Gofynnodd Aelod a fyddai modd talu benthyciad tymor hir yn ôl dros gyfnod byrrach er mwyn arbed llog, ac ymatebodd y Trysorydd y byddai'r premiwm adbrynu yn rhy uchel i wneud hyn yn opsiwn hyfyw; fodd bynnag, byddai hyn yn cael ei fonitro gan swyddogion a phe bai cyfle i wneud hyn yn y dyfodol, byddai'n cael ei ystyried.

**10.5 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r gweithgarwch rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024;**

## 11.0 MATERION BRYS

11.1 Dywedodd y PSTC MacArthur wrth yr Aelodau fod Gweithgor Craffu ar y Gyllideb yr Aelodau a gynhaliwyd yn y flwyddyn ariannol flaenorol wedi bod yn gyfle i ymgysylltu â'r Aelodau ynghylch y broses o bennu'r gyllideb a'i fod wedi bod yn fuddiol iawn. Bydd y cyfarfodydd hyn yn parhau dros y chwe mis nesaf a gofynnwyd i'r Aelodau a oeddent yn teimlo y dylid ymestyn aelodaeth y grŵp.

11. 2 Cadarnhaodd yr Aelodau fod yr aelodaeth fel ag y mae yn dderbyniol a chadarnhawyd eu bod yn fodlon iddo fwrw ymlaen, a bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn parhau i gadeirio'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb.

Daeth y cyfarfod i ben am 10:46.

*This document is available in English*

Eitem Agenda 06

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis, MIAA** |
| Pwnc | **Adroddiad Cynnydd gan Archwilio Mewnol** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod, MIAA, ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 hyd yma.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad sydd wedi'i atodi yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25, hyd at 30 Tachwedd 2024, yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno.

4 Mae'r adroddiad yn cadarnhau, yn ystod y cyfnod, bod adolygiadau manwl o'r rheolaethau sy'n ymwneud â thrafodion ariannol allweddol a gweithredu'r strategaeth hyfforddi wedi'u cynnal. Cafodd y ddau adolygiad sicrwydd sylweddol gydag argymhellion ar gyfer gwella yn cael eu cytuno gyda'r rheolwyr.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2024/25.

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, ac mae'n rhaid cynnwys canfyddiadau'r archwiliad yn y Datganiad Rheoli Mewnol bob blwyddyn.

8 Penodwyd MIAA gan yr Awdurdod i fod yn archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Mawrth 2024.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2024/25 hyd at 30 Tachwedd 2024. Mae hyn yn cadarnhau bod yr holl waith yn mynd rhagddo yn unol â'r cynllun.

10 Roedd yr adolygiad o'r rheolaethau sydd ar waith ar gyfer y trafodion ariannol allweddol yn rhoi sicrwydd sylweddol bod rheolaethau ar waith a'u bod yn gweithredu fel y bwriadwyd. Mae cwmpas a chanfyddiadau'r adolygiad wedi'u hamlinellu yn Atodiad C yr adroddiad a chytunwyd ar bum argymhelliad i fynd i'r afael â risgiau canolig/isel.

11 Roedd y gwaith a wnaed gan y tîm archwilio mewnol hefyd yn cynnwys adolygiad o weithredu'r strategaeth hyfforddi. Roedd y gwaith hwn yn rhoi lefel sylweddol o sicrwydd ac mae Atodiad C yn cadarnhau bod pedwar argymhelliad i fynd i'r afael â risgiau canolig wedi'u cytuno.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol a reolir yn gywir yn cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses ar gyfer pennu cyllideb yn effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod y taliadau yn unol â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r archwiliad mewnol o brosesau ariannol craidd yn cefnogi nodi a rheoli risgiau yn effeithiol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Rhagfyr 2024)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Meysydd Allweddol a Chamau Gweithredu i'w Cyflawni

Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio ynglŷn â'r cynnydd a wnaed yn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Rydym yn darparu adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, adroddir ar y sefyllfa gyfunol o safbwynt y camau dilynol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Medi 2024 i 30 Tachwedd 2024.

# 3 Crynodeb Gweithredol

**Adolygiadau Archwilio 2024/25**

Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:

- Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol (Sicrwydd Sylweddol)

Ar y cyfan, roedd system dda o reolaethau mewnol wedi'i llunio i fodloni amcanion y system, ond nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Roedd tystiolaeth eang bod rheolaethau ariannol cadarn o fewn y sefydliad, a chanfuwyd meysydd o arfer da yn y rhan fwyaf o'n profion sampl a'n hadolygiad o ddogfennau.

- Cynllun Gweithredu y Strategaeth Hyfforddi (Sicrwydd Sylweddol)

Er bod yr adolygiad wedi nodi nifer o feysydd o arfer da, roedd cyfleoedd hefyd i gryfhau rheolaethau mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys gwella'r trefniadau adrodd ar berfformiad, diweddaru Strategaeth Hyfforddi Yr Ochr Weithredol a'r Ystafell Reoli, adolygiad o'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi cyfredol ac adolygu trefniadau adrodd i'r Awdurdod Tân.

Gweler Atodiad C am fanylion y Meysydd Allweddol a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

Mae'r adolygiadau canlynol ar y gweill:

- Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu Ariannol (pan yn ofynnol)

## Camau Dilynol

Mae ein gwaith dilynol ar y gweill.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gwreiddiol ac amlygir hynny ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro. Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i ddiwygio'r cynllun archwilio cymeradwy.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Ym mis Ionawr cyhoeddodd Sefydliad yr Archwilwyr Mewnol Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang (GIAS) diwygiedig.

Mae'r Gosodwr Safonau Archwilio Mewnol Perthnasol (RIASS) ar gyfer Sector Cyhoeddus y DU wedi cytuno i ddefnyddio'r GIAS newydd fel sail ar gyfer archwilio mewnol yn Sector Cyhoeddus y DU ac wedi cyhoeddi ymgynghoriad ar gymhwyso'r GIAs yn sector cyhoeddus y DU sydd bellach yn fyw ac yn ar gael ar wefan Bwrdd Cynghori Safonau Archwilio Mewnol Sector Cyhoeddus y DU (IASAB) [Consultation on Internal Audit Standards in the UK Public Sector | CIPFA (iasab.org).] Dyddiad cau 31 Hydref.

Mae MIAA yn cael eu cynrychioli ar yr IASAB ac maent wedi cyfrannu'n uniongyrchol at y dogfennau ymgynghori.

Y dyddiad gweithredu ar gyfer y safonau newydd yn sector cyhoeddus y DU fydd 1 Ebrill 2025. Tan hynny, bydd Safonau Archwilio Mewnol presennol y Sector Cyhoeddus yn parhau i fod yn berthnasol.

Pan fydd yr IASAB yn cyhoeddi deunydd terfynol i'w ddefnyddio yn sector cyhoeddus y DU, bydd MIAA yn ei adolygu ac yn diwygio ein prosesau os oes angen er mwyn parhau i sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r safonau.

Gellir gweld y diweddaraf gan IASAB trwy'r ddolen ganlynol: https://www.iasab.org/latest-news

## Gwerth Ychwanegol

Digwyddiadau

- Social Value Masterclass (5 Chwefror 2025): How embedding a culture and practice of social value can benefit your organisation and community: Codi ymwybyddiaeth o werth cymdeithasol a sefydliadau angori, y gwerth y gallant ei roi i'ch sefydliad a ffyrdd o ddatblygu diwylliant sydd o werth cymdeithasol. Bydd gan gynrychiolwyr ddealltwriaeth o beth yw gwerth cymdeithasol a chymwysiadau ymarferol i ymgorffori meddylfryd yn ymwneud â gwerth cymdeithasol ar draws eu sefydliadau. Byddwn yn rhannu enghreifftiau ymarferol y gall arweinwyr eu cymryd a'u rhoi ar waith gan gynnwys mesur effaith gwerth cymdeithasol ar draws sefydliadau a sicrhau bod gwerth cymdeithasol yn ystyrlon ac yn cael ei arwain gan werthoedd.

Mae'r digwyddiadau yn rhad ac am ddim i bob cleient a gellir archebu lle drwy glicio ar y ddolen uchod neu drwy ein gwefan www.miaa.nhs.uk a chlicio ar Events.

# Atodiad A:  Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan bod 'Rhaid i'r prif swyddog archwilio gweithredol roi ei farn, neu ei barn, a darparu adroddiad blynyddol ynghylch archwilio mewnol fel y gall y sefydliad eu defnyddio fel sail i'w ddatganiad llywodraethu.'

Mae'r tabl yn crynhoi'r Farn a gyflwynodd eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2024/25:

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio | Cytuno ar TOR | Statws | Lefel Sicrwydd | Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheoli Risgiau | | Cyflawni C4 | | Mawrth 2025 |
| Cynllun Gweithredu'r Strategaeth Hyfforddi | ✔ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol | ✔ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Rhagfyr 2024 |
| Caffael | ✔ | Wedi ei gwblhau | Sylweddol | Medi 2024 |
| Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu Ariannol | Amh. | Yn ôl yr angen | | Amh. |
| Camau Dilynol | | | | |
| Ch1 | Amh. | Wedi ei gwblhau | Amh. | Mehefin 2024 |
| C4 | Amh. | Ar y gweill | | Mehefin 2025 |

Os nad ydyn ni'n gallu sicrhau digon o ddyfnder neu gwmpas oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi rhybudd o hyn gyda'r farn ac egluro'i effaith a beth fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Y prif fesur o berfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad yr Archwiliad Mewnol.

| Elfen | Pa mor aml y rhoddir Adroddiad | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyflwyno Holiadur Boddhad i Gleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur i gasglu adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunir arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar gamau dilynol ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys ac amrywiol iawn sy'n cynnwys 75% o staff cymwysedig. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i Safonau Ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiad MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

## Atodiad C: Meysydd Allweddol o'n Gwaith a'r Camau Gweithredu i'w Cyflawni

| **Teitl yr Adroddiad** | **Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Noddwr Gweithredol | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | | | |
| Amcan | I roi sicrwydd bod y rheolaethau allweddol mwyaf arwyddocaol yn y meysydd isod, wedi'u dylunio'n briodol a'u bod yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol.<br>• Cyfriflyfr Cyffredinol<br>• Cyfrifon Taladwy<br>• Cyfrifon Derbyniadwy<br>• Rheoli Trysorlys | | | |
| Argymhellion | 0 x Critigol | 0 x Uchel | 3 x Canolig | 3 x Isel |
| Crynodeb | <u>Cyfriflyfr Cyffredinol</u><br>• Dangosodd profion ar gysoniadau cyfrif banc eu bod wedi eu cwblhau'n fisol a'u cofnodi mewn adroddiad misol, a oedd yn cysoni'r balans prawf yn erbyn balans y gyfriflen banc.<br>• Canfu profion sampl ar 20 o gyfnodolion fod y dyletswyddau wedi cael eu gwahanu'n ddigonol o fewn system TechOne (rhwng y darparwr a'r cymeradwywr).<br>• Cafodd cyllideb 2024/25 ei chyflwyno a'i chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ym mis Ionawr 2024. Roedd yn manylu ar y ffigurau yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25. Cyflwynwyd yr asesiad cynllunio ariannol ar gyfer 2025/26 i'r Awdurdod Tân ym mis Hydref 2024 yn wreiddiol. Cytunwyd ar y ffigurau yn unol â'r gyllideb flynyddol ym mhapur Diweddariad Ariannol yr Awdurdod Tân yr adroddwyd arno ym mis Hydref 2024.<br><u>Cyfrifon Taladwy</u> | | | |

| | |
|---|---|
| | • Roedd Rheoliadau Ariannol Sefydlog (SFRs) ar waith (ac yn gyfredol - i'w hadolygu ym mis Mawrth 2025) ac roeddent yn nodi rolau a chyfrifoldebau a ategir gan hierarchaeth gweithwyr a gynhelir o fewn system TechOne.<br>• Cadarnhaodd profion archwilio ar sampl o 20 o derfynau dirprwyedig a sefydlwyd yn system TechOne eu bod wedi'u sefydlu'n gywir yn unol â'r SFRs.<br>• Canfu profion MIAA ar sampl o 10 taliad a wnaed gydag archeb brynu gymeradwy fod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol a bod cymeradwyaeth yn cael ei orfodi o fewn system TechOne. Canfuwyd bod 10 taliad a wnaed heb archeb brynu wedi'u cymeradwyo'n briodol yn unol â'r terfynau ariannol a osodwyd.<br><u>Cyfrifon Derbyniadwy</u><br>• Nododd adolygiad archwilio o'r 3 nodyn credyd a godwyd ers mis Ebrill 2024 fod cyfiawnhad dilys ar gyfer canslo'r ddyled, â thystiolaeth o awdurdodiad priodol.<br>• Roedd gan y Gwasanaeth bolisi cyfredol ar waith ar gyfer hen ddyledion. Yn ôl adolygiad o'r adroddiad dadansoddi hen ddyledion diweddaraf, nid oedd unrhyw ddyledion hirdymor neu werth uchel wedi'u cofnodi.<br>• Ar gyfer sampl o hen ddyledion, cafwyd tystiolaeth i gadarnhau yr aed ar drywydd y ddyled yn ddigonol yn unol â pholisi.<br>• Cadarnhawyd na ddilëwyd unrhyw ddyledion yn ystod y flwyddyn. Caiff unrhyw ddyledion a ddileir eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.<br><u>Rheoli Trysorlys</u><br>• Mae taliadau BACS wedi'u prosesu'n wythnosol ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael.<br>• Cadarnhawyd bod y dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol wrth gyrchu porth ar-lein Barclays i brosesu rhediadau taliadau. |

| | |
|---|---|
| Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu arnynt | Cyfrifon Taladwy - Ar adeg yr adolygiad, nodwyd bod y Gwasanaeth wrthi'n drafftio dogfen ganllaw ar gyfer cwblhau gwiriadau dilysu. Dylai hyn gynnwys nodiadau gweithdrefn ar gyfer sefydlu cyflenwyr newydd a diwygio manylion banc cyflenwyr presennol. Yn ogystal, canfu profion archwilio ar sampl o 10 o ddiwygiadau banc cyflenwyr nad oedd tystiolaeth ar gael, mewn un achos, i ddangos bod gwiriad dilysu cyflenwyr wedi'i gynnal. Yn ogystal, ni chafodd gwahanu dyletswyddau ei orfodi fel rhan o'r broses ddilysu. (Risg Canolig)<br><br>Rheoli'r Trysorlys – Nododd ein hadolygiad o fandad Banc y Gwasanaeth Tân bod angen ei ddiweddaru i adlewyrchu rolau presennol a newidiadau diweddar o ran staff. (Risg Canolig)<br><br>Cyfriflyfr Cyffredinol – Yn ystod ein hadolygiad, nodwyd bod angen adolygu a diweddaru'r Cynllun Dirprwyo Ariannol (SoFD). (Risg Canolig)<br><br>Cyfrifon Taladwy - Nododd profion ar sampl o archebion prynu fod yr archeb brynu wedi'i chodi ar ôl derbyn yr anfoneb mewn 2 achos. **(Risg Isel)**<br><br>Cyfrifon Derbyniadwy - Nododd ein profion ar anfonebau dyledwyr nad oedd digon o dystiolaeth i gefnogi'r ddyled (o ran Archebion Prynu dilys neu ddogfennaeth ategol) mewn 2 achos. **(Risg Isel)**<br><br>Y Cyfriflyfr Cyffredinol – Dylai'r trefniadau presennol sydd ar waith mewn perthynas ag adroddiadau ariannol a chysoni cyfriflenni Cyfrifon Taladwy a Chyfrifon Derbyniadwy gael eu hadlewyrchu mewn Gweithdrefn Weithredu Sefydlog. (Risg Isel) |

<table>
<tr><td>Teitl yr Adroddiad</td><td colspan="4">Cynllun Gweithredu’r Strategaeth Hyfforddi</td></tr>
<tr><td>Noddwr Gweithredol</td><td colspan="4">Prif Swyddog Tân Cynorthwyol</td></tr>
<tr><td>Amcan</td><td colspan="4">Gwerthuso effeithiolrwydd y Strategaeth Hyfforddiant Gweithredol a gwerthuso i ba raddau y dilynwyd y cynllun gweithredu.</td></tr>
<tr><td>Argymhellion</td><td>0 x Critigol</td><td>0 x Uchel</td><td>4 x Canolig</td><td>0 x Isel</td></tr>
<tr><td>Crynodeb</td><td colspan="4">• Canfu ein hadolygiad fod Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Hyfforddiant Gweithredol ar waith ar gyfer 2024/25. Roedd y cynllun hyfforddi yn cynnwys manylion am y cyrsiau hyfforddi y bwriedir eu cynnal yn ystod y flwyddyn, ynghyd â'r dyddiadau cyflwyno arfaethedig.<br>• Cadarnhaodd adolygiad archwilio o’r Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol fod hyfforddiant wedi'i amserlennu ar gyfer yr holl sgiliau craidd sy’n cael eu hamlinellu yn Strategaeth Hyfforddi Yr Ochr Weithredol a’r Ystafell Reoli.<br>• Cyflwynodd y Gwasanaeth raglen hyfforddiant gweithredol cyfredol i Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Hydref 2022 ac roedd hyn yn cynnwys cadarnhad o gydymffurfiaeth â’r fframwaith seiliedig ar gymhwysedd a ddatblygwyd gan Gymdeithas y Prif Swyddogion Tân a Manylebau Hyfforddi y Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol.<br>• Nododd adolygiad MIAA o’r Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol cyfredol ar gyfer 2024/25 (a ddiwygiwyd ym mis Mehefin 2024 er mwyn cynnwys newid i ddyddiadau’r cyrsiau) fod y cynllun wedi’i gefnogi gan fframwaith cymhwysedd strwythuredig ar gyfer hyfforddiant rheoli digwyddiadau. Roedd hyn yn seiliedig ar asesiad gwybodus o anghenion dysgu'r holl staff gweithredol ar bob cam o'u llwybr gyrfa ac roedd yn cynnwys gofynion hyfforddi (gan gynnwys hyfforddiant gloywi).<br>• Roedd y Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol yn cynnwys y trefniadau sydd ar waith ar gyfer monitro perfformiad. Roedd hyn yn cynnwys nifer o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol er mwyn dangos a yw’r adran ar y trywydd iawn (neu beidio) er mwyn cyflawni ei hamcanion yn unol â’r cynllun hyfforddi a datblygu adrannol. Roedd enghreifftiau o’r dangosyddion perfformiad allweddol yn cynnwys Cwrs Gloywi Offer Anadlu - targed o 50% o staff ar gyfer pob blwyddyn hyfforddi; a Hyfforddiant Ymddygiad Tân Adrannol (CFBT) – targed o 50% o staff ar gyfer pob blwyddyn hyfforddi.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Canfu adolygiad MIAA fod y Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol yn cynnwys manylion am y gweithgareddau yr oedd yr Adran Hyfforddiant a Datblygu yn bwriadu eu cyflwyno gan gynnwys hyfforddiant cychwynnol a hyfforddiant gloywi critigol o ran risg. Roedd cyrsiau a gynlluniwyd yn cynnwys dros 30 o gyrsiau, pob un ohonynt yn cynnwys cerrig milltir allweddol ar gyfer gweithredu.<br>• Cadarnhaodd ein hadolygiad fod y dangosyddion perfformiad allweddol wedi'u hadrodd yng nghyfarfod grŵp chwarterol y rheolwyr hyfforddi ac yna i'r Uwch Dîm Arweinyddol. Mae nifer y staff cymwys sy'n gallu mynychu bob blwyddyn yn cael ei fonitro'n chwarterol ar gyfer pob blwyddyn hyfforddi.<br>• Roedd adolygiad MIAA o adroddiad ar berfformiad Adran Hyfforddiant Gweithredol yn ystod Chwarter 4 2023/24 yn dangos bod monitro digonol o ddarpariaeth hyfforddiant gyda dangosfwrdd yn cynnwys manylion am y cyrsiau a fynychwyd a bod perfformiad wedi'i fesur yn erbyn y dangosyddion perfformiad allweddol. Roedd yr adroddiad yn dangos y perfformiad go iawn ar ddiwedd blwyddyn yn erbyn y perfformiad targed ar gyfer pob cwrs a defnyddiwyd y system raddio goch/ambr/gwyrdd i gyflwyno data perfformiad.<br>• Nododd adolygiad eilaidd MIAA ei bod yn ofynnol i unigolion gadw cofnodion cyfredol o'r gweithgareddau hyfforddi a gyflawnwyd, fel sy'n ofynnol ar gyfer eu rhaglen gymwyso. Roedd hi hefyd yn ofynnol i Reolwyr Llinell fonitro hyfforddiant unigolion. Goruchwyliwyd y broses hon gan y Rheolwr Darparu Hyfforddiant sy'n monitro gofynion presenoldeb.<br>• Nododd adolygiad o gofnodion cyfarfodydd diweddar Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth enghreifftiau lle mae sancsiynau wedi'u gorfodi a chamau priodol wedi'u cymryd o ganlyniad i fethiant unigolion i gydymffurfio â gofynion hyfforddi a hyfforddiant hwyr.<br>• Nodwyd bod adroddiad chwarterol yn cael ei baratoi a'i gyflwyno i Gyfarfod Rheolwyr yr Ochr Weithredol ac Ystafell Reoli'r Gwasanaeth cyn adrodd i'r Pwyllgor Dysgu Sefydliadol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth. Mae'r tueddiadau hefyd yn cael eu cyflwyno i gyfarfod Rheolwyr Hyfforddiant ac Ystafell Reoli Cymru Gyfan sy'n rhoi cyfle i'r sefydliad drafod dylanwadau cenedlaethol a rhanbarthol.<br>• Cadarnhaodd MIAA fod y Gwasanaeth yn rhan o rwydwaith Grŵp Hyfforddi Cymru Gyfan, y mae ei aelodau'n cyfarfod bob chwarter. Mae adolygiad o bapurau a chofnodion y cyfarfod diweddaraf (Medi 2024) yn tynnu sylw at y materion a drafodwyd gan gynnwys cydweithio er mwyn cyflwyno hyfforddiant (yn bennaf i leihau costau cyflwyno). |

| | |
|---|---|
| Meysydd Allweddol y Cytunwyd i Weithredu arnynt | Er bod perfformiad go iawn yn cael ei adrodd yn erbyn perfformiad targed mewn perthynas â chyrsiau, canfu adolygiad MIAA o'r adroddiad ar berfformiad Hyfforddiant Yr Ochr Weithredol a Rheoli nad oedd hyn bob amser yn cael ei gefnogi gan gamau a gymerwyd pan na chyrhaeddwyd y perfformiad targed. Er bod adolygiad o gofnodion cyfarfodydd diweddar Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi nodi enghreifftiau o sancsiynau lle mae unigolion wedi methu â chydymffurfio â gofynion hyfforddi, dylai'r adroddiad ar berfformiad adlewyrchu'n llawn y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â hyfforddiant hwyr.<br><br>Dylid hefyd gwella'r adroddiad ar berfformiad i gynnwys:<br><br>• Cyfraddau targed ar gyfer cydymffurfio yn erbyn gofynion hyfforddiant gweithredol yn eu cyfanrwydd yn hytrach nag ar lefel cwrs;<br>• Cyfraddau cydymffurfio yn erbyn yr uchod (cyfraddau hyfforddi go iawn);<br>• Manylion cyfraddau cydymffurfio pan fo hyfforddiant wedi dod i ben neu fod y dyddiadau adolygu ar gyfer hyfforddiant gloywi wedi pasio; ac,<br>• Adrodd ar berfformiad y Gwasanaeth cyfan ac yn ôl grŵp o staff/gorsaf ardal Gwasanaeth. (Risg Canolig)<br><br>Cafodd Strategaeth Hyfforddi Yr Ochr Weithredol a'r Ystafell Reoli ei hadolygu ddiwethaf ym mis Ebrill 2023. Dylid adolygu'r strategaeth i sicrhau ei bod yn cydymffurfio ag unrhyw newidiadau i bolisïau perthnasol GTAGC, gofynion deddfwriaethol ac arferion gorau, ac i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 2024/25. (Risg Canolig)<br><br>Roedd adolygiad MIAA yn dangos fod Strategaeth Hyfforddi Yr Ochr Weithredol a'r Ystafell Reoli wedi cael ei chefnogi gan Gynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol 2024/25 a oedd yn cynnwys manylion am ail flwyddyn y cylch hyfforddi tair blynedd. Nododd ein hadolygiad fod y cylch hyfforddi hwn yn ganlyniad i'r Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi a gymeradwywyd gan Dîm Arweinyddol y Gwasanaeth ym mis Tachwedd 2022. Dylai'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi gael ei adolygu a'i ddiweddaru. **(Risg Canolig)**<br><br>Nododd adolygiad o bapurau diweddar yr Awdurdod Tân na adroddwyd ar gynnydd yn erbyn Cynllun Cyflwyno Hyfforddiant Gweithredol. **(Risg Canolig)** |

# Atodiad D: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau yn cael eu gweithredu'n gyson ym mhob maes a adolygwyd. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i fodloni amcanion y system, ac mae'r rheolaethau yn cael eu gweithredu'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu weithredu rheolaethau yn anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a / neu weithredu mesurau rheolaeth yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Nac oes | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan fod gwendidau mewn rheolaeth a/neu ddiffyg ddiffyg cydymffurfio cyson â mesurau rheolaeth wedi, neu fe allai, arwain at fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr o ran y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendidau rheoli:<br>• sy'n cael effaith fach ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod angen eu gwneud. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb dros system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod yn nwylo’r rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn mesurau rheoli mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae’n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir atebolrwydd i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Rhif ffôn: 07920 150313

E-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Dirprwy Gyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Rhif ffôn: 07469 378328

E-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk

*This document is available in English* **Eitem Agenda 7**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Y diweddaraf ynghylch Rheoli'r Trysorlys Q2 2024/25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) am weithgarwch rheoli'r trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd at 30 Medi 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd yr Awdurdod god ymarfer *Rheoli Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (y Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod, ar y lleiaf, gymeradwyo adroddiadau alldro chwarterol a blynyddol ynghylch rheoli'r trysorlys.

3 Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i roi adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

4 Cymeradwywyd strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 mewn cyfarfod ar 18 Mawrth 2024. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae nodi, monitro a rheoli risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i) nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 30 Medi 2024.

## CYD-DESTUN ALLANOL

6 Gostyngodd prif gyfraddau chwyddiant mynegai prisiau defnyddwyr (CPI) y DU o 3.2% ym mis Mawrth i 2% ym mis Mai ac aros yn sefydlog hyd at fis Medi 2024, gan gyrraedd targed Banc Lloegr. Bu gostyngiad mwy graddol i'r chwyddiant craidd, o 4.2% ym mis Mawrth i 3.2% erbyn mis Medi, tra bod chwyddiant prisiau gwasanaethau wedi gostwng ychydig o 5.7% ym mis Mai i 5.3% erbyn mis Medi. Fe wnaeth y tueddiadau hyn ysgogi Banc Lloegr i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25% tan ddiwedd mis Gorffennaf.

7 Pleidleisiodd Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) Banc Lloegr ym mis Mehefin 2024 i gadw Cyfradd y Banc ar 5.25%. Ar 31 Gorffennaf, pleidleisiodd yr MPC i ostwng y gyfradd sylfaenol 0.25%, gan ddod â hi i lawr i 5% o 1 Awst. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng ymhellach yn ystod 2024 a 2025.

8 Ym mis Medi 2024, roedd y Gyfradd Banc yn 5%. Disgwylir i gyfraddau llog ostwng ymhellach yn 2025, gan ddibynnu ar dwf cyflogau, chwyddiant gwasanaethau, ac amodau economaidd ehangach.

## CYD-DESTUN LLEOL

9 Ar 31 Mawrth 2024, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £14.82m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

10 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

11 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **30.06.24 Gwirioneddol £m** | **30.09.23 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol | 27.94 | 28.08 | 27.94 |
| Benthyca allanol | -17.78 | -17.76 | -16.83 |
| **Benthyca mewnol** | **10.16** | **10.32** | **11.11** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.13 | -13.57 | -17.05 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 2.97 | 3.25 | 5.94 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** | **0.00** |

12 Mae sefyllfa rheoli'r trysorlys ar 30 Medi a'r newid dros y chwe mis yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.24 Balans £m | Symudiad £m | 30.9.24 Balans £m | 30.9.24 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca tymor hir | 14.07 | -0.75 | 13.32 | 1.07 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 3.71 | -0.20 | 3.51 | 1.00 – 4.31 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **-0.95** | **16.83** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | -1.48 | 1.48 | 0.00 | 4.93 - 5.19 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -1.48 | -4.46 | -5.94 | 4.88- 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-2.96** | **-2.98** | **-5.94** | |
| **Benthyciad net** | **14.82** | **-3.93** | **10.89** | |

## BENTHYCA

13 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

14 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

## STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA

15 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

16 Roedd costau benthyca tymor byr gan awdurdodau lleol eraill wedi cynyddu i oddeutu 7% ar ddiwedd mis Mawrth 2024, gan adlewyrchu llai o weithgarwch benthyca rhwng awdurdodau lleol. Fodd bynnag, yn ôl y disgwyl, dychwelodd y cyfraddau i gyfraddau mwy arferol yn Ch1 a Ch2, sef oddeutu 5.25% ar gyfartaledd am y rhan fwyaf o'r cyfnod.

17 Amrywiodd cyfradd sicrwydd y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 10 mlynedd rhwng 4.80% a 5.18% rhwng mis Ebrill a mis Medi 2024, gan ddechrau ar 4.8% ar ddechrau mis Ebrill a gorffen ar 4.96% ym mis Medi. Roedd y cyfraddau'n amrywio o 5.24% i 5.57% ar gyfer benthyciadau aeddfedrwydd 20 mlynedd, tra bod benthyciadau 50 mlynedd ar gael ar gyfraddau rhwng 5.06% a 5.40%.

18 Ar 30 Medi 2024, roedd gan yr Awdurdod £16.83m o fenthyciadau, gostyngiad o £0.95m o'i gymharu â 31 Mawrth 2024. Ceir crynodeb o'r benthyciadau sy'n weddill ar 30 Medi yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa Fenthyca**

| | 31.3.24 Balans £m | Symudiad Net £m | 30.9.24 Balans £m | 30.9.24 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli % | 30.9.24 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd) |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 17.78 | -0.960 | 16.827 | 2.980 | 6.910 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 0.00 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **17.78** | **-0.96** | **16.827** | | |

19 Disodlodd yr Awdurdod ei fenthyciadau tymor byr gan awdurdodau lleol yn 2023/24 ac ar 31 Mawrth 2024 nid oedd ganddo fenthyciadau tymor byr mwyach ac eithrio benthyciadau Y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus a oedd yn aeddfedu.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | Swm £m | Cyfradd % | Cyfnod (Blynyddoedd) |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 28 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.65 | 3.09 | 13 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.72 | 3.91 | 17 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **7.37** | | |

20 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, ac mae'n ceisio cynnal portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

## GWEITHGARWCH BUDDSODDI TRYSORLYS

21 Cyhoeddodd CIPFA Reolaeth Trysorlys ddiwygiedig yn y Cod Ymarfer Gwasanaethau Cyhoeddus a Nodiadau Canllawiau Traws-Sectoraidd ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel buddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian y sefydliad neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau y mae angen eu buddsoddi nes bydd angen yr arian i'w ddefnyddio ar gyfer busnes.

22 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y chwarter, roedd balansau buddsoddi'r Awdurdod yn amrywio rhwng £2.96m a £8.8m. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Y Sefyllfa Buddsoddi Trysorlys**

| | 31.3.24 | | 30.9.24 | 30.9.24 | 30.9.24 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Balans** | **Symudiad Net** | **Balans** | **Adenillion Incwm** | **Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli** |
| | **£m** | **£m** | **£m** | **%** | **dyddiau** |
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 1.48 | 4.46 | 5.94 | 4.88 - 5.14 | Ar alwad |
| Llywodraeth Ganolog | 1.48 | -1.48 | 0.00 | 4.93 - 5.19 | 4 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **2.96** | **2.98** | **5.94** | | |

23 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

24 Fel y mae meincnod atebolrwydd yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

25 Mae Cyfraddau Banc wedi gostwng o 5.25% ar ei uchaf ar ddechrau'r cyfnod ariannol i 5% ar ddechrau mis Awst. Roedd y cyfraddau ar adneuon DMADF yn ystod y chwarter rhwng 5.19% a 4.92%

**CYDYMFFURFIAETH**

26 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod. Mae gan Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) ddau gyfrif adnau a ddefnyddir ar gyfer adneuon tymor byr, gyda Banc Lloyds a Banc Barclays. Mae'r cyfraddau llog a gynigir ar adneuon trysorlys yn dueddol o fod yn fwy ffafriol; fodd bynnag, cafodd adneuon eu cadw gyda Lloyd a Barclays yn ystod y cyfnod hwn oherwydd y gofyniad hylifedd ar gyfer prynu'r tir ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd.

27 Mae'r awdurdod hefyd yn defnyddio ei gyfrif gyda'r Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO), gan nad yw Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn rhoi cyfyngiad ar faint o arian y gellir ei roi i'r DMO.

28 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 30.09.24 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Ydy / Nac ydy |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m | £5.94m | ydy |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | **0** | ydy |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar y cyd â chyngor ar gyfer Arlingclose. | £1m fesul cronfa | **0** | ydy |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | **0** | ydy |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | **0** | ydy |

29 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 30.09.24 Gwirioneddol £m | 2024/25 Ffin Weithredol £m | 2024/25 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 16.83 | 28.99 | 30.99 | Ia |
| **Cyfanswm y ddyled** | **16.83** | **28.99** | **30.99** | |

30 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd y benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai torri'r terfyn yn y byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

31 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli trysorlys.

### Meincnod Atebolrwydd

32 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod ar hyn o bryd yn erbyn meincnod atebolrwydd a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod atebolrwydd yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i ddull o wneud penderfyniadau yn sgil hynny.

33 Mae'r dangosydd yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd..


| | **31.03.24 Gwirioneddol £m** | **30.09.24 Gwirioneddol £m** | **31.03.25 Rhagolwg £m** | **31.03.26 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf Benthyciadau | 27.94 | 27.94 | 35.10 | 40.30 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -13.12 | -17.05 | -19.70 | -16.20 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 14.82 | 10.89 | 15.40 | 24.10 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod atebolrwydd** | **16.82** | **12.89** | **17.40** | **26.10** |
| **Benthyciadau presennol** | **-17.78** | **-16.83** | **-14.10** | **-8.50** |

34 Nid yw'r rhagolwg uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig.

35 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod atebolrwydd hirdymor yn tybio yr ariannir gwariant cyfalaf drwy fenthyca £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26,cynnydd o [2.5]% y flwyddyn oherwydd chwyddiant yn yr isafswm darpariaeth refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant, a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.

36 Mae'r graff yn dangos bod angen i'r Awdurdod fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

37 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Atebolrwydd. Mae’r llinell goch doredig yn cynrychioli’r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae’r llinell solet yn cynrychioli’r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae’r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng dan y llinellau coch, mae’n golygu bod angen benthyca.




**Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau**

38 Mae’r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 30.09.24 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Uchaf Terfyn | Isaf Terfyn | Wedi Cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| Dan 12 mis | 2.2 | 13.07% | 60.00% | 0.00% | I |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 4.2 | 24.96% | 45.00% | 0.00% | I |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 3.20 | 19.01% | 45.00% | 0.00% | I |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | | 0.00% | 75.00% | 0.00% | I |
| 10 mlynedd a mwy | 7.23 | 42.96% | 100.00% | 0.00% | I |

39 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw’r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

**Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor**

40 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant tymor hir yr Awdurdod. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei phennu'n flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol â'r adroddiad Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim. |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg** | Dim. |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2025-26** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ynghylch yr asesiad cynllunio ariannol sy'n digwydd ar hyn o bryd er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2025/26, ac i geisio eu cymeradwyaeth ar gyfer cadarnhau'r ardoll ddangosol gyda'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2025/26 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2024, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 15 Chwefror 2025. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2025/26 yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £52.389m wedi'i gadarnhau.

## ARGYMHELLION

3 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2025/26;
ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol presennol, sef gofyniad cyllidebol o £52.389m ar gyfer 2025/26;
iii) Nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2025/26; a
iv) Chymeradwyo cyfathrebu ynghylch yr ardoll ariannol ddrafft o £51.788m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.

## CEFNDIR

4 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2025/26 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

5 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

6 Yn dilyn ymgynghoriad yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 ac yn unol â phenderfyniad yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023, mae cynlluniau'r gyllideb yn seiliedig ar gynnal y model presennol ar gyfer cyflwyno'r gwasanaethau. Mae'r gwaith ar gynlluniau i wella argaeledd mewn ardaloedd gwledig yn mynd rhagddo ac y tu hwnt i gwmpas y papur hwn sy'n gosod y gyllideb.

7 Cafodd y broses ei goruchwylio gan y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Gydag aelodau sy'n cynrychioli pob awdurdod lleol, mae'r Gweithgor wedi cyfarfod ar 5 achlysur rhwng Mehefin a Thachwedd 2024, gyda chyfarfod pellach wedi'i drefnu ar gyfer 12 Rhagfyr.


## GWYBODAETH

8 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi ymgynnull ar bum achlysur i adolygu pob agwedd ar wariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys costau cyflogau uniongyrchol, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ariannu cyfalaf, llog, a threfniadau prydlesu.

9 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau, a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

10 Roedd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn nodi y byddai angen cynnydd o fwy na 10% yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26. Roedd hyn yn cynnwys pwysau ychwanegol o £1.009m o ran costau yn deillio o'r cynnydd i'r tâl cadw ar gyfer personél y system dyletswydd ar alwad y cytunwyd arno yn genedlaethol. Gwnaed yr asesiad hwn cyn Datganiad yr Hydref ac, felly, nid oedd yn ystyried newidiadau posibl i gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogwyr, nad oeddent yn hysbys ar y pryd.

11 Nododd y gwaith cychwynnol o gynllunio'r gyllideb mewn manylder bwysau ychwanegol anochel, ac mae'r Gweithgor bellach wedi mynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Mae'r asesiad drafft terfynol yn gosod gofyniad cyllidebol o £52.389m. Ar ôl defnyddio £0.601m o'r gronfa wrth gefn, £51.788m yw'r gofyniad ardoll ar gyfer 2025/26, sy'n cynrychioli cynnydd gros o 7% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol. Nid yw'r cynnydd hwn yn adlewyrchu unrhyw gefnogaeth gan y llywodraeth mewn perthynas â chostau yswiriant gwladol uwch.




12 Mae'r gofyniad ardoll o £51.78m ar gyfer 2025/26 yn cynnwys effaith ariannol y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol y cyflogwyr, sef cyfanswm o £0.772m. Yn ogystal, mae'r £48.322m a godwyd ar gyfer 2024/25 ardoll yn eithrio'r grant pensiwn SCAPE, ac mae angen addasiad i wneud cymhariaeth tebyg.


13 Mae dadansoddiad drafft o'r gofyniad ardoll o £51.788m ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 2.

14 Mae'r tabl isod yn cadarnhau gostyngiadau o £0.902m ar gyfer costau gweithwyr a chostau eraill nad ydynt yn gyflogau a nodwyd gan waith y Gweithgor rhwng mis Medi a mis Hydref 2024. Fodd bynnag, roedd y gostyngiad net yn £0.386m oherwydd effaith y cynnydd i gyfraddau Yswiriant Gwladol yn dilyn datganiad cyllideb yr Hydref a gwaith mireinio ar yr ariannu cyfalaf.

| **£'m** | **2024/25** | **Medi-24** | **Hyd-24** | **Tach-24** | **Newidiadau drwy Graffu ar y Gyllideb** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gweithwyr** | 34.192 | 36.751 | 36.614 | 36.936 | 0.185 |
| **Cost nad yw'n gyflog** | 12.807 | 13.077 | 12.432 | 11.990 | -1.087 |
| **Incwm** | -0.946 | -1.039 | -1.039 | -1.039 | 0.000 |
| **Cyllid Cyfalaf** | 3.193 | 3.985 | 3.856 | 4.407 | 0.516 |
| **Cyfanswm** | **49.246** | **52.774** | **51.863** | **52.388** | **-0.386** |

15 Mae'r siartiau rhaeadr canlynol yn dangos y newidiadau allweddol rhwng cyllideb 2024/25 a chyllideb arfaethedig 2025/26, gan dynnu sylw at yr addasiadau a'r defnydd o gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n berthnasol ac yn briodol.

16 Mae costau gweithwyr wedi codi o gyllideb cyflogres o £34.192m yng 2024/25 i £36.936m yng nghyllideb cyflogres arfaethedig 2025/26. Mae rhai o'r prif bethau sy'n cyfrannu at y cynnydd hwn yn cynnwys £0.060m ar gyfer dyfarniad cyflog 2024/25 ar gyfer staff y Llyfr Gwyrdd, £1.009m ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) sy'n dod i rym o 1 Ionawr 2025, £0.648m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Llwyd ar 3%, £0.202m ar gyfer chwyddiant y Llyfr Gwyrdd ar 3%, a £0.772m yn adlewyrchu effaith y newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.119m o ganlyniad i addasiadau i swyddi'r system dyletswydd ar alwad (sydd yn lleihau'r rhagdybiaeth o recriwtio 30 o staff ychwanegol i 15). Yn ogystal, dyrennir £0.061m i dalu am swydd incwm cyfatebol, dyrennir £0.045m ar gyfer cyflwyno swydd Uwch Swyddog Cydymffurfio Diogelwch Tân i Fusnesau, a £0.035m ar gyfer rôl Swyddog Caffael.





17 Mae'r dadansoddiad o gostau uniongyrchol y gyflogres, a nodir isod, yn cadarnhau dyraniad o £36.936m ar gyfer gweithwyr mewn swyddi sy'n cyflwyno gwasanaethau. Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn cynnwys darpariaethau i gefnogi twf parhaus y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS), er hynny, gyda rhagdybiaeth o recriwtio yn ychwanegol wedi'i leihau i 15, gan sicrhau bod gallu a chydnerthedd yr ymateb gweithredol yn cael eu cynnal.


| **Dadansoddiad o Gostau Cyflogau Uniongyrchol** | **2025/26 £'m** |
|---|---|
| Darparu Gwasanaethau Ymateb | 31.267 |
| Darparu Gwasanaethau Amddiffyn ac Atal | 2.712 |
| Gwasanaethau Corfforaethol | 2.957 |
| **Gofynion y Gyllideb Staffio** | **36.936** |

18 Rhagwelir y bydd costau nad ydynt yn ymwneud â chyflogau yn gostwng o £12.807m yn 2024/25 i lefel sylfaenol ddiwygiedig o £11.990m ar gyfer 2025/26. Mae'r gostyngiad hwn yn cael ei yrru gan £0.563m mewn arbedion cyfleustodau, £0.497m o gael gwared ar wariant untro Tech Ops, £0.489m o ostyngiadau disgwyliedig yng nghostau Firelink, a £0.076m oherwydd bod gwariant a ariennir gan grant wedi dod i ben.


19 Mae'r gostyngiadau hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan gynnydd o £0.336m ar gyfer yr Ystafell Reoli, £0.200m yr un ar gyfer y Fflyd a TGCh, a £0.055m ar gyfer costau adrannol eraill. Cynigir bod costau untro, gan gynnwys £0.382m ar gyfer gwelliannau i'r system a £0.125m ar gyfer mesuryddion llif, yn cael eu hariannu o'r gronfa wrth gefn, gan arwain at gyllideb arfaethedig derfynol o £11.955m ar gyfer y gyllideb nad yw'n ymwneud â chyflogau.




20 Rhagwelir y bydd incwm yn cynyddu o £0.946m yng nghyllideb 2024/25 i £1.039m, wedi'i yrru gan refeniw uwch o Gytundebau Lefel Gwasanaeth ac incwm ychwanegol a ragwelir yn sgil cyflwyno prentisiaeth mewn partneriaeth â Choleg Cambria.



21 Rhagwelir y bydd costau ariannu cyfalaf yn cynyddu o £3.189m yn 2024/25 i £4.407m yn 2025/26, yn bennaf oherwydd bod cyfraddau llog yn cynyddu. Mae'r ffactorau allweddol yn cynnwys £0.135m mewn costau llog ail-ariannu, £0.197m ar gyfer benthyca sy'n gysylltiedig â phrosiectau cyfalaf, £0.094m ar gyfer prydlesi, a £0.253m ar gyfer y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw. Mae costau benthyca ychwanegol ar gyfer prosiectau cyfalaf newydd a chyfleusterau hyfforddi yn cyfrannu £0.652m a £0.054m, yn y drefn honno. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei wrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.074m yng nghostau'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) a defnyddio £0.094m o'r gronfa wrth gefn, gan arwain at y gyllideb arfaethedig o £4.407m.




## GWAITH PELLACH

22 Bydd achosion busnes ar gyfer ariannu cyfalaf yn destun craffu mewnol pellach i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad, yn lliniaru risgiau'n effeithiol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod buddsoddiadau arfaethedig yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cefnogi nodau ehangach llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

23 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei fireinio ymhellach, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 20 Ionawr 2025.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn gysylltiedig ag amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod. Mae'n adrodd ar hyfywedd ariannol yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi nodi gofyniad cyllideb o £52.8m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb gytbwys sy'n seiliedig ar ragdybiaethau cynllunio realistig. |
| Staffio | Mae 70% o'r gwariant yn ymwneud â chostau staff ac felly mae'n ffactor hanfodol wrth ystyried sefydlogrwydd ariannol yn y dyfodol. Mae'r risgiau a nododd y Prif Swyddog Tân yn cynnwys y trafodaethau cyflog sy'n parhau yn ogystal â'r angen i recriwtio mwy o staff dyletswydd ar alwad a gwella cydnerthedd corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb. |
| Risgiau | Mae'r risgiau a'r ansicrwydd allweddol i gyllideb 2025/26 wedi'u hamlinellu yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**
**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Bydd y cyllidebau staffio yn cael eu llunio ar fodelau cyflwyno’r gwasanaethau presennol a byddant yn adlewyrchu’r penderfyniad ynghylch canlyniad yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys gan yr Awdurdod Tân ac Achub ym mis Rhagfyr 2023.<br>• Mae gwariant y System Dyletswydd ar Alwad (RDS) wedi'i seilio ar gyfrif pennau 2023/24. Byddai cyllidebu ar gyfer y staffio llawn gofynnol yn arwain at gost ychwanegol o tua £3 miliwn.<br>• Mae'r asesiad cynllunio ar gyfer y dyfarniadau cyflog ar gyfer 2025/26 yn gynnydd o 3% ar gyfer pob grŵp staff.<br>• Roedd setliad diffoddwyr tân 2024/25 yn cynnwys codiad o tua 50% yn y tâl cadw a delir i ddiffoddwyr tân ar y systemau dyletswydd ar alwad a chriwio dydd. Amcangyfrifir mai effaith y cynnydd hwn yw £1m y flwyddyn.<br>• Yn ystod 2023/24 adolygodd Llywodraeth Cymru y llif arian mewn perthynas â chymorth ariannol ar gyfer y cynnydd i gyfraniadau'r cyflogwr sy'n gysylltiedig â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. Yn dilyn prisiadau actiwaraidd 2016 darparwyd £1.1m o gymorth i'r Awdurdod yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru (a elwir yn gyllid SCAPE). Ers 2023/24 mae hyn wedi'i gynnwys o fewn y cyllid i’r awdurdodau lleol cyfansoddol. Ar adeg ysgrifennu hwn, nid yw'r cymorth ariannol ar gyfer y cynnydd sy'n deillio o brisiad 2020 wedi'i gadarnhau eto. At ddiben pennu'r gyllideb mae'r holl gostau wedi'u cynnwys o fewn y gwariant sydd i'w gwmpasu gan yr ardal. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2025/26.<br>• Nid yw’r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol wedi dod i gytundeb eto ar y dyfarniad cyflog i staff ar gontractau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) ar gyfer 2025/26.<br>• Mae’r gwaith o gynllunio’r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Mae'r asesiad cynllunio cychwynnol wedi cadarnhau y bydd y cyllidebau ar gyfer costau nad ydynt yn gyflogau’n cael eu llunio gan ddefnyddio’r modelau cyflwyno gwasanaethau presennol.<br>• Mae'r gofynion ar y gyllideb nad yw’n ymwneud â chyflogau wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy oherwydd yr effaith chwyddiant sy'n gynhenid o fewn contractau presennol ac yn y dyfodol, yn ogystal â materion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi mewn nifer o feysydd hanfodol i fusnes. Mae'r rhain yn cynnwys cyflenwi cit diffodd tân a dod o hyd i rannau newydd ar gyfer cerbydau’r ochr weithredol.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Mae cyllidebau wedi’u llunio gan bob Pennaeth Adran perthnasol yn seiliedig ar eu gwybodaeth a'u barn broffesiynol am y gwariant sy'n angenrheidiol i gyflawni ein hamcanion corfforaethol. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o rwymedigaethau cytundebol sylfaenol ac amcangyfrifon o weithgarwch. Mae ceisiadau newydd am gyllid dros £10,000 yn ddarostyngedig i achos busnes y bydd craffu arno. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn trwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy’n bwysig i’r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i’r pwysau byd-eang ar gostau. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2025/26 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae anwadalrwydd yn y farchnad yn parhau a chaiff hyn ei reoli'n ofalus drwy gydol y flwyddyn ariannol.<br>• Yn ystod 2023/24, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddileu ei chefnogaeth ariannol o £0.4m ar gyfer rhwydwaith cyfathrebu cenedlaethol presennol y gwasanaethau brys (Firelink). Mae pris llawn y contract bellach yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllid craidd. Oherwydd natur sefydlog y contract hwn, ni ellir osgoi'r costau hyn ac mae'r contract yn cynnwys cynnydd blynyddol yn sgil chwyddiant. Mae’r gost ar gyfer blwyddyn lawn yn £1m er y gallai hyn ostwng i £0.5m yn dilyn her gyfreithiol genedlaethol. Mae'r her gyfreithiol genedlaethol yn destun apêl ac rydym yn parhau i fod yn ansicr beth fydd y canlyniad terfynol. Fodd bynnag, mae'r gostyngiad yn y gost wedi'i gynnwys fel rhan o'r gwaith o bennu'r gyllideb. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2025/26 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2025/26 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy’n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu’r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.5%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2025/26. Bydd modelu ariannol yn cael ei wneud i asesu pa mor fforddiadwy yw’r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi’u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf ag incwm o eiddo lle mae ein safleoedd yn cael eu defnyddio ar y cyd.<br>• Bu gostyngiad sylweddol yn incwm grant Llywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf a bydd y broses o bennu’r gyllideb yn rhagdybio y bydd gweddill y cyllid grant gan Lywodraeth Cymru yn cael ei dderbyn ar lefelau 2024/25. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer. |

**Atodiad 2**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod | Cyfraniad 2024/2025<br>£ | Poblogaeth | Dosraniad<br>% | Gofynion y Gyllideb (Ardoll) 2025/2026<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>£ | Cynnydd i'r Ardoll<br>% |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 4,848,293 | 69,291 | 10.02% | 5,190,383 | 342,090 | 7.06% |
| Cyngor Gwynedd | 8,256,681 | 119,173 | 17.24% | 8,926,896 | 670,214 | 8.12% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 8,024,901 | 114,410 | 16.55% | 8,570,114 | 545,213 | 6.79% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 6,779,844 | 97,156 | 14.05% | 7,277,668 | 497,824 | 7.34% |
| Cyngor Sir y Fflint | 10,905,762 | 155,182 | 22.45% | 11,624,223 | 718,461 | 6.59% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 9,506,724 | 136,149 | 19.69% | 10,198,518 | 691,794 | 7.28% |
| **Cyfanswm** | **48,322,205** | **691,361** | **100%** | **51,787,801** | **3,465,596** | **7.17%** |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9i**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ganlyniad yr archwiliad allanol ar Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad 2022-23, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun.

3 Cyflwynwyd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 16 Hydref 2023.

4 Mae'r mesurau gwella yn ddarostyngedig i archwiliad gan Archwilio Cymru, yn unol ag adran 17 y Mesur, a Chod Ymarfer Archwilio Archwilio Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

## CEFNDIR

5 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi.

## GWYBODAETH

6 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

7 Roedd yr oedi cyn ardystio o ganlyniad i absenoldeb oherwydd salwch yn Archwilio Cymru, a phroblemau adnoddau wrth geisio llenwi'r rôl.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Dim – gweithgaredd hanesyddol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Dim |

**Cyfeirnod:** 4529A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2024

# Archwiliad o Asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o Berfformiad 2022-23

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2022-23, a hynny yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i fy archwiliad, rwyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur, ac wedi gweithredu'n unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

Dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad yn flynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu i'w hun;
- cyfeirio at ddangosyddion perfformiad sydd wedi'u nodi gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad sydd wedi'u pennu gan yr Awdurdod ei hun; a
- chyflawni unrhyw safonau perfformiad sydd wedi'u nodi gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad wedi'u pennu gan yr Awdurdod ei hun.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn ystod y flwyddyn ariannol yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall a allai gael ei bennu trwy orchymyn gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod ystyried canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Weinidogion Cymru, wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol dan adrannau 17 ac 19 y Mesur i mi gynnal archwiliad er mwyn penderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, i ardystio fy mod i wedi gwneud hynny ac adrodd ynghylch a wyf o'r farn bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau'n unol â'r gofynion statudol sydd wedi'u nodi yn adran 15 ac mewn canllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio byddaf yn derbyn, os yw awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw’n ofynnol i mi ffurfio barn ynghylch pa mor gyflawn neu gywir yw’r wybodaeth. Mae’n bosibl y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef o dan adran 18 y Mesur yn ystyried y materion hynny. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad o berfformiad yr Awdurdod yn cynnwys adolygu cyhoeddiad yr Awdurdod er mwyn gweld a oedd yn cynnwys yr elfennau sydd wedi’u pennu mewn deddfwriaeth. Gwnes i hefyd  asesu a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi’r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, ac a oedd yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei asesiad.

Nid yw’r gwaith yr wyf wedi’i gyflawni er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 ac 19 y Mesur yn waith y mae modd dibynnu’n gyfan gwbl arno i nodi pob gwendid neu bob cyfle i wella



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jane Bryant – Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Carwyn Rees – Rheolwr Archwilio

*This document is available in English* **Agenda Eitem 09ii**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ganlyniad yr archwiliad allanol ar Asesiad yr Awdurdod o Berfformiad 2023-24, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio'i berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u gosod iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennwyd gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad y mae wedi'u pennu ei hun.

3 Cyflwynwyd yr Asesiad Perfformiad Blynyddol i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 21 Hydref 2024.

4 Mae'r mesurau gwella yn ddarostyngedig i archwiliad gan Archwilio Cymru, yn unol ag adran 17 y Mesur, a Chod Ymarfer Archwilio Archwilio Cymru.

**ARGYMHELLION**

5 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**CEFNDIR**

5 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr un y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi.

**GWYBODAETH**

6 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Dim – gweithgaredd hanesyddol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Dim |

**Cyfeirnod:** 4567A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2024

# Archwilio Asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru o Berfformiad 2023-24

## Tystysgrif

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio asesiad Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) o'i berfformiad yn 2023-24 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Cyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi asesiad blynyddol sy'n disgrifio ei berfformiad:

- wrth gyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- wrth gyflawni'r amcanion gwella mae wedi gosod ei hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; ac
- wrth fodloni unrhyw safonau perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru, a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol yn dilyn yr hyn y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn unrhyw ddyddiad arall y caiff Gweinidogion Cymru ei bennu drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad i benderfynu a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad perfformiad, i ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac i adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd neu gywirdeb gwybodaeth. Gall gwaith asesu arall y byddaf yn ymgymryd ag ef o dan adran 18 o'r Mesur archwilio'r materion hyn. Roedd fy archwiliad o asesiad perfformiad yr Awdurdod felly'n cynnwys adolygiad o gyhoeddiad yr Awdurdod i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu'n unig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jane Bryant - Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Carwyn Rees – Rheolwr Archwilio

*This document is available in English* **Eitem Agenda 09iii**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân** |
| Swyddog Cyswllt | **Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cadarnhau i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ganlyniad yr archwiliad allanol ar fesurau gwella 2024/25 yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi Cynllun Gwella blynyddol cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol. Mae'r gofyniad hwn wedi'i ymgorffori yng Nghynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRMP) 2024-2029 a Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2024-2025, a gyflwynwyd i'r Aelodau yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15 Gorffennaf 2024.

3 Mae'r mesurau gwella yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, y mae'n ofynnol iddynt adrodd ynghylch a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan adran 17 ac 19 y Mesur.

**ARGYMHELLION**

4 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Nodi'r llythyr archwilio sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

**CEFNDIR**

5 Mae'n ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru gyhoeddi eu hamcanion gwella yn unol â'r Mesur, a'u hamcanion llesiant i gydymffurfio â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. At ddibenion prosesau cynllunio'r Awdurdod mae'r rhain yn cael eu trin fel yr un pethau.

6 Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod:

- Wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- Gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella'n cael eu cyflawni; a
- Gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

**GWYBODAETH**

7 Mae CRMP 2024-2029 a CRMIP 2024-25 yn nodi amcanion yr Awdurdod, ac fe'u cymeradwywyd gan yr Aelodau yng nghyfarfod 15 Gorffennaf 2024. Mae'n destun adolygiad archwilio gan Archwilio Cymru, y mae'n ofynnol iddynt gadarnhau a yw'r Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r mesurau gwella.

8 Mae'r llythyr archwilio a nodir yn Atodiad 1 yn cadarnhau bod Archwilio Cymru wedi gorffen ei waith a'i fod yn fodlon bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 |
| Cyllideb | Mae'r mesurau gwella a nodir yn CRMP 2024-2029 a CRMIP 2024-2025 wedi'u seilio ar y broses gynllunio ariannol |
| Cyfreithiol | Mae adroddiad Archwilio Cymru yn cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei rwymedigaethau statudol. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae’r gwaith datblygu ar CRMP 2024-2029 yn ystyried y risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod. |

**Cyfeirnod:** 4530A2024

**Dyddiad cyhoeddi:** Hydref 2024

# Archwiliad o Gynllun Gwella 2024-25 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Mae Rhif Cylchlythyr Gwasanaeth Tân ac Achub Cymru: W-FRSC(2021)07 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru barhau i adrodd yn erbyn Mesur Llywodraeth Leol 2009 nes bod Fframwaith Cenedlaethol newydd a threfniadau diwygiedig wedi'u cyflwyno.

## Tystysgrif

Rwy'n tystio, yn dilyn cyhoeddiad ym mis Gorffennaf 2024, fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, credaf fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod Gyfrifoldebau'r Awdurdod a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Awdurdod baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth arfer ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau bod ei amcanion gwella yn cael eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau fel bod unrhyw safon perfformiad a bennir gan Weinidogion Cymru yn cael ei bodloni.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl unrhyw ddyddiad arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy orchymyn.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd yr Awdurdod, mae'n ofynnol i mi o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur gynnal archwiliad o'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, ac adrodd a wyf yn credu bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas archwiliad y Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, byddaf yn derbyn, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, y bydd hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn, nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd neu gywirdeb gwybodaeth, nac a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddir gan yr Awdurdod. Roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Awdurdod, felly, yn cynnwys adolygiad o'r cynllun i ganfod a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth, a bod yr Awdurdod wedi rhoi sylw i ganllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu'n unig ar y gwaith rwyf wedi'i wneud er mwyn adrodd a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur i nodi'r holl wendidau neu gyfleoedd i wella.



**Adrian Crompton**

**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

CC: Jayne Bryant – Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol

Carwyn Rees – Rheolwr Archwilio

*This document is available in English* **Eitem Agenda 10**

xxx

| | |
|---|---|
| Adroddiad i'r | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards, Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Pwnc | **Cymeradwyo Mandad Banc** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â dirprwyo'r trefniadau bancio.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) roi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu'r asedau dan ei reolaeth, gan gynnwys rheoli cyfrifon banc a thrafodion.

3 Mae'r adroddiad yn cadarnhau'r cynnig i geisio awdurdod i'r gweithgareddau a nodir yn yr adroddiad hwn gael eu dirprwyo i dri pherson awdurdodedig: y Prif Swyddog Tân (PST), Trysorydd yr Awdurdod, a'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (PSTC), Cyllid ac Adnoddau. Ym mhob achos, byddai angen dau lofnod.

## ARGYMHELLION

4 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) Cymeradwyo'r dirprwyo arfaethedig ar y gweithgareddau a amlinellir yn yr adroddiad hwn i unrhyw ddau lofnodwr o blith y bobl ganlynol: y Prif Swyddog Tân, Trysorydd yr Awdurdod neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau.

## CEFNDIR

5 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau priodol ar waith i ddiogelu a rheoli ei asedau, gan gynnwys gweithrediad ei gyfrifon banc.

6 Mae pob cyfrif banc yn destun mandad banc sy'n rhoi cadarnhad o'r person/unigolion sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu ar ran yr Awdurdod. Er mwyn galluogi'r cyfrif banc i weithredu o ddydd i ddydd, mae angen rhoi trefniadau ar waith i ddirprwyo swyddogaethau'r Awdurdod i swyddogion Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

**GWYBODAETH**

7 Ceisir cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Archwilio i ddirprwyo'r camau canlynol i'r Prif Swyddog Tân, Trysorydd yr Awdurdod neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau:

- Agor cyfrifon banc;

- Newid llofnodwyr ar gyfer cyfrifon banc;

- Ymdrin â materion bancio cysylltiedig gan gynnwys llofnodi unrhyw gytundeb mewn perthynas â gwasanaethau rheoli arian parod a ddarperir gan y banc a fydd yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, amodau cyfrifon, cynhyrchion a gwasanaethau banc, trefniadau cronni arian parod, cytundebau sy'n ymwneud â gwasanaethau talu a gwasanaethau derbyniadwy neu gytundebau eraill sy'n ymwneud â thrafodion bancio ariannol; a

- Llofnodi dogfennau mewn perthynas â sianeli bancio electronig a dirprwyo i'r unigolion penodedig y pŵer i benderfynu ar faterion yr ymdrinnir â nhw ar gyfer sianeli bancio electronig a chaniatáu i'r unigolion hynny is-ddirprwyo'r pŵer i unigolion eraill wneud taliadau a rhoi cyfarwyddiadau eraill mewn perthynas â'r sianeli bancio electronig hynny.

8 Er mwyn sicrhau bod rheolaethau priodol ar waith, byddai angen llofnod dau berson o'r rhestr o dri llofnodwr cymeradwy ar gyfer y camau uchod.

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithrediad cyfrifon banc yr Awdurdod yn hanfodol i weithrediad parhaus y Gwasanaeth. |
| Cyllideb | Dim effaith gyllidebol. |
| Cyfreithiol | Mae'r dirprwyo yn cefnogi amgylchedd rheoli mewnol effeithiol. |
| Staffio | Dim effaith. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Amherthnasol. |
| Risgiau | Mae’r gweithgareddau dirprwyedig yn destun mesurau rheoli ac mae angen dau lofnodwr. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adrodd i | **Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **16 Rhagfyr 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Justin Evans, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Jack Millward, Caffael & Rheolwr Contractau** |
| Pwnc | **Cynnig Caffael Ymgynghoriaeth ar gyfer y Ganolfan Hyfforddi** |

## DIBEN

1 Mae'r papur hwn yn cyflwyno i'r Aelodau y strategaeth gaffael arfaethedig ar gyfer penodi gweithwyr ymgynghorol proffesiynol ar gyfer prosiect y ganolfan hyfforddi newydd.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ar ôl cymeradwyo achos busnes ar gyfer canolfan hyfforddi newydd, ceisir llwybr caffael ar gyfer penodi gweithwyr ymgynghori proffesiynol allweddol drwy fframwaith sector cyhoeddus.

3 Mae fframweithiau'r sector cyhoeddus yn sicrhau cydymffurfiaeth â rheoliadau caffael, gan alluogi dyfarnu yn uniongyrchol i gyflenwyr arbenigol prif wasanaethau ymgynghori.

4 Mae prif ymgynghorwyr yn hanfodol ar gyfer hyrwyddo'r prosiect a symud ymlaen â chamau angenrheidiol Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain (RIBA).

5 Gellir caffael prif ymgynghorydd priodol drwy fframwaith sy'n cydymffurfio â'r sector cyhoeddus i ddarparu arbenigedd proffesiynol i fodloni graddfa a gofynion y prosiect.

## ARGYMHELLION

6 Gofynnir i'r Aelodau:

i) Cymeradwyo llwybr caffael arfaethedig y gwasanaethau ymgynghori proffesiynol drwy fframwaith sector cyhoeddus;

## CAFFAEL YMGYNGHORWYR DYLUNIO

### Penodi Ymgynghorwyr

7 Yn dilyn cymeradwyaeth Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) i'r achos busnes ar gyfer y ganolfan hyfforddi newydd ar 21 Hydref 2024, mae gwaith wedi dechrau i benodi'r prif gyflenwr ar gyfer gweithgareddau dylunio ac ymgynghori. Cynigir ein bod yn defnyddio fframwaith a nodwyd sy'n darparu mynediad i Benseiri, Peirianwyr Strwythurol, Syrfëwyr Meintiau, Asiantau Cyflogwyr a Pheirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

8 Ar gyfer gwasanaethau eraill fel Cyfnodau 0 ac 1, Prif Ddylunydd (Rheoliadau Adeiladu), Peiriannydd Sifil, Ymgynghorydd Cynllunio a BREEAM, mae dyfynbrisiau ffioedd sefydlog yn cael eu cronni gan ddefnyddio cyfraddau fesul awr wedi'i dendro unwaith y bydd cwmpas y prosiect yn hysbys, cyn arwyddo cytundeb. Mae'r cyfrifiad prisiau yn cael ei wneud ar sail llyfr agored, y gellir ei archwilio. Mae'r cyfraddau tendro yn gyfrinachol ar hyn o bryd ond gellir eu rhannu wrth lofnodi cytundeb cyfrinachedd. Cadarnheir bod y cyfraddau hyn yn gystadleuol yn y farchnad bresennol.

9 Defnyddiwyd y fframwaith hwn gan amryw o Wasanaethau Tân a'r Heddlu i benodi ymgynghorwyr ar gyfer prosiectau'r Orsaf Dân a'r Ganolfan Hyfforddiant, yn ogystal ag ar gyfer astudiaethau dichonoldeb a gynhaliwyd yn flaenorol ar gyfer y Gwasanaeth. Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus i gaffael ymgynghorwyr ar gyfer Greater Manchester, Lancashire, a Cheshire Fire and Rescue Services i gefnogi eu prosiectau adeiladu. Mae'r fframwaith yn rhoi'r opsiwn i ddatblygu'r tîm ymgynghorol o fewn y prisiau tendro, gan ddefnyddio ymgynghorwyr sydd â phrofiad blaenorol helaeth mewn prosiectau Gorsafoedd Tân a Chanolfan Hyfforddi.

10 Manteision defnyddio'r fframwaith:

- Wedi'i gaffael drwy broses gyfyngedig dau gam, mae'r fframwaith yn cydymffurfio â Rheoliad 28 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus (Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon) 2015;
- prisiau wedi eu profi gan y farchnad;
- hyblygrwydd o ran ymgynghorwyr a chwmpas gwasanaeth;
- profiad o ymgymryd â phrosiectau gorsafoedd tân a chanolfannau hyfforddi;
- ymgynghorwyr a gyflogwyd yn flaenorol i ddatblygu'r cynllun i'w gymeradwyo;
- cyfrifiad prisiau llyfr agored;

- hyblygrwydd i ychwanegu ymgynghorwyr eraill wrth i'r prosiect fynd rhagddo e.e. Clerc Gwaith (COW);
- caniatáu defnyddio ymgynghorwyr menter cyfrwng bach;
- targedau Gwerth Cymdeithasol lefel fframwaith;
- y gallu i negodi targedau Gwerth Cymdeithasol lleol i gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- statws Hyrwyddwr fframwaith y sector cyhoeddus o fewn Cod Lleihau Carbon y Cyngor Arweinyddiaeth Adeiladu;
- ffi fframwaith wedi'i chynnwys o fewn cyfraddau a roddir;
- apwyntiad cyflym gydag ymgynghorwyr fel arfer yn cael eu penodi dwy i dair wythnos ar ôl yr ymholiad cyntaf; a
- Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Y Gwasanaeth) wedi defnyddio'r fframwaith ar gyfer astudiaethau dichonoldeb o'r blaen.

11 Risgiau a materion sydd ynghlwm â defnyddio'r fframwaith:

- Cyrchu sengl, h.y dim cystadleuaeth fach i ailagor y caffael;
- Ni ellir penodi Peiriannydd Tân am resymau yswiriant; a
- Ni ellir penodi ecolegydd drwy'r fframwaith hwn

Mae manteision defnyddio fframwaith yn gorbwyso'r risgiau ac felly argymhellir mai dyma'r llwybr caffael delfrydol.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Sicrhau bod caffael gweithwyr proffesiynol ymgynghoriaeth yn cydymffurfio ac yn cefnogi ymrwymiad y Gwasanaeth am ragoriaeth. |
| **Cyllideb** | Mae cyllideb sy'n gysylltiedig â'r gwasanaethau ymgynghori hyn wedi'u cynnwys yn flaenorol mewn amcanestyniadau cost a dadansoddiadau llif arian a gyflwynwyd i'r Awdurdod. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddiol wedi'i nodi trwy ddeddfwriaeth Llywodraeth Cymru a'r DU, yn ogystal â rheolau mewnol gweithdrefnau contractau. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/ Y Gymraeg** | Mae gofynion caffael yn sicrhau bod y safonau perthnasol fel sy'n ofynnol mewn deddfwriaeth yn cael eu bodloni. |
| **Risgiau** | Gallai methu â chadw at reoliadau caffael arwain at her gyfreithiol. |